Menter PATAGONIA

www.menterpatagonia.org

**Scroll down for English**

## Cyfle unigryw i Ieuenctid wneud gwaith gwirfoddol trwy'r Gymraeg, ochor arall y Blaned.

Fel rhan o gynllun Menter Patagonia mae Mentrau Iaith y Gogledd a'r Urdd wedi trefnu taith ieuenctid yno. Bu cydweithio cyson rhwng swyddogion yng Nghymru a Phatagonia i drefnu rhaglen i'r criw sy'n gyfuniad o waith dyngarol a chynorthwyo'r gymuned Gymraeg.

Dyma'r criw yn cyrraedd yr Andes ar y 18fed o Hydref ac fe gawsant gyfle i dreulio wythnos llawn hwyl yn yr ardal. Roedden nhw´n brysur iawn yn diddanu'r bobl leol gan berfformio mewn tri chyngerdd o fewn tri diwrnod!

Cawsant gyfle i wneud gwahanol weithgareddau yn yr ysgol yn Nhrevelin ddydd Llun gan gynnwys sesiwn rygbi gyda'r plant lleol. Roedd y gweithdy clocsio yn llwyddiant mawr bnawn Llun ac roedd pawb wrth eu boddau gyda thalentau Anna.

Mae´r criw wedi cymryd rhan mewn gwahanol gyngherddau yn Nhrevelin ac Esquel ac mae'r trigolion lleol wedi eu hargyhoeddi'n fawr gyda doniau'r criw o Gymru. Mae côr y criw yn dod yn ei flaen yn dda iawn hefyd!

Maent hefyd wedi bod yn gwneud gwaith gwirfoddol ac wedi bod yn ymweld â sefydliadau sy´n bwydo plant difreintiedig yn yr ardal.

Cafwyd gêm bêl-droed bwysig ddydd Gwener rhwng Cymru a´r Ariannin i ddathlu diwrnod pêl-droed cymunedau gwledig y byd.

Bydd y criw yn mynd draw i Ddyffryn Camwy am ail wythnos eu taith gan wneud rhagor o waith gwirfoddol a chystadlu yn Eisteddfod y Wladfa.

Cewch yr holl hanes fis nesaf neu ewch i safle we Menter Patagonia (Menterpatagonia.com) neu am fwy o fanylion cysylltwch â Meirion ym Menter Iaith Conwy ar: (01492) 642357.

**ENGLISH**

# An unique volunteering experience through the medium of Welsh on the other side of the Planet.

As part of the *Menter Patagonia* scheme, *Mentrau Iaith y Gogledd* and the *Urdd* have organised a youth trip to Patagonia. Officers in Wales and Patagonia have been collaborating in order to create a programme for the group while they are out there which is a combination of humanitarian work and assisting the Welsh speaking community.

The *Urdd* and *Mentrau Iaith* group arrived safely in the Andes on October 18th and they got the chance to spend a fun packed week in the area. They were extremely busy entertaining the local people by performing three concerts within three days!

They also had the chance to fulfil different activities in a school in Trevelin on Monday which included a rugby session with the local children. The clog dancing session was a great success and everyone were very impressed with Anna's talents.

The group have taken part in different concerts in Trevelin and Esquel and the local people have been impressed with the talents of the group from Wales.  The choir is also coming along nicely!

They have also been doing volunteeing work and have visited organisations that feed disadvantaged children in the area.

An important football match was played on Friday between Wales and Argentina to celebrate football within the rural communites of the world.

The group will be spending the second week in the valley of Chubut and will undertake more volunteering work as well as competing in *Eisteddfod y Wladfa*.

Hopefully you'll get all the news next month or you can visit the *Menter Patagonia* website (Menterpatagonia.com)
For more information contact Meirion at Menter Iaith Conwy on (01492) 642357.

Cynllun ar y cyd rhwng y sefydliadau canlynol;

NosDa mentrau iaith cymru urdd.org BRITISH COUNCIL Cymru BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

CYMDEITHAS CYMRU- ARIANNIN